



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales



**Environment  
Agency**

# Datganiad Manylion

## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy

TERFYNOL

Medi 2015

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein pwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella, a'u defnyddio'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Byddwn yn gweithio i gymunedau Cymru i amddiffyn pobl a'u cartrefi hyd y gallwn rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Byddwn yn darparu cyfleoedd iddynt ddysgu, defnyddio ac elwa ar adnoddau naturiol Cymru.

Byddwn yn gweithio i economi Cymru ac yn galluogi defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gefnogi gwaith a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried cyfyngiadau amgylcheddol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig.

Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio i alluogi'r amgylchedd ac adnoddau naturiol i ddygymod yn well â newid hinsawdd a phwysau eraill.

## Asiantaeth yr Amgylchedd

Ni yw Asiantaeth yr Amgylchedd. Rydym yn amddiffyn a gwella'r amgylchedd ac yn ei wneud yn lle gwell i bobl ac i fywyd gwylt.

Rydym yn gweithredu lle mae newid amgylcheddol yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl. Rydym yn lleihau'r perygl gan lifogydd i bobl ac eiddo; yn sicrhau bod digon o ddŵr i bobl a bywyd gwylt; yn amddiffyn a gwella ansawdd yr aer, tir a'r dŵr; ac yn gosod y safonau amgylcheddol y gall diwydiant weithredu oddi mewn iddynt.

Mae gweithredu i leihau newid hinsawdd a helpu pobl a bywyd gwylt i addasu i'w ganlyniadau wrth wraidd popeth a wnawn.

Ni allwn wneud hyn ar ben ein hun. Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys y llywodraeth, byd busnes, awdurdodau lleol, asiantaethau eraill, grwpiau cymdeithas sifil, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## 1. Cyflwyniad

Mae'n ofynnol gan Reoliadau Asesu Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol) bod Datganiad Manylion ar gael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Rhaid i'r datganiad hwn ddangos:

1. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy (**Adran 2** o'r ddogfen hon)
2. Sut mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei ystyried (**Adran 3**)
3. Sut mae'r farn a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei hystyried (**Adran 4**)
4. Y rhesymau dros ddewis Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau rhesymol eraill yr ymdriniwyd â nhw (**Adran 5**) a
5. mesurau y dylid eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol arwyddocaol gweithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (**Adran 6**)

### Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd

Mae Cyfarwydddeb Llifogydd yr UE, a gafodd ei throsi'n ddeddf i Gymru a Lloegr trwy Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, yn gofyn am gynhyrchu cynlluniau rheoli perygl llifogydd bob chwe blynedd.

Mae'r cynllun drafft ar gyfer Afon Dyfrdwy'n nodi mesurau arfaethedig ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y cymunedau hynny yr ystyrir iddynt fod yn y perygl mwyaf yng Nghymru ac ar draws dalgylchoedd gweithredol rhan Lloegr o ardal basn Afon Dyfrdwy. Cafodd hwn ei gyhoeddi rhwng 10 Hydref 2014 a 31 Ionawr 2015. Cafodd yr adroddiad amgylcheddol, gyda manylion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yr ymgwymerwyd ag ef ar gyfer y cynllun drafft, ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ef.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu set o wyth o amcanion trosfwaol ar gyfer Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy:

1. Lleihau'r perygl o lifogydd ac effaith llifogydd ar bobl a chymunedau (o'r prif afonydd, cronfeydd a'r môr)
2. Cynyddu gallu gwasanaethau, asedau a seilwaith i ymdopi â pherygl lifogydd

3. Gwella dealltwriaeth o berygl llifogydd er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael
4. Gwella ymwybyddiaeth cymunedau o lifogydd a'u galluogi i ddygymod yn well â nhw
5. Darparu ymateb effeithiol a chyson i ddigwyddiadau llifogydd
6. Dyrannu cyllid ac adnoddau ar gyfer pob mathau o lifogydd ar sail perygl
7. Ymgorffori a hyrwyddo dull gweithredu integredig tuag at reoli perygl llifogydd, gan weithio gyda phrosesau naturiol ar raddfa dalgylch i ddarparu buddiannau lluosog i bobl a'r amgylchedd
8. Ymgorffori addasu newid hinsawdd ym mhob agwedd ar reoli perygl llifogydd

## **2. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy?**

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella, a'u defnyddio'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. O ganlyniad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mabwysiadu nifer o arferion i sicrhau bod gwaith rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy. Mae hyn yn cyflawni buddiannau ar y cyd i bobl ac amgylchedd Cymru ac yn cyfrannu tuag at Gymru sy'n gallu ymdopi'n well â llifogydd, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Datblygwyd Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy i ddisgrifio'r mesurau rydym yn bwriadu eu cymryd i reoli perygl llifogydd i bobl, yr amgylchedd a gweithgarwch economaidd ledled ardal basn Afon Dyfrdwy. Mae hyn ynddo'i hun yn fuddiol, ond, trwy wneud hyn, mae posibilrwydd o effeithiau amgylcheddol ehangach. Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn cofnodi ein hymrwymiad i ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o'n cynlluniau, strategaethau a phrosiectau ble y bo'n berthnasol ac yn angenrheidiol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn lleihau'r effaith economaidd ac yn sicrhau'r buddiannau amgylcheddol mwyaf posibl. Rydym yn ceisio rheoli perygl llifogydd trwy fesurau anffisegol yn bennaf oll – er enghraifft, trwy ddefnyddio ymchwilio a modelu i ddeall y perygl a rhybuddio a hysbysu – ac ni fyddwn yn ystyried ymyriadau ffisegol ac eithrio pan fyddwn yn deall y perygl ac mae eu hangen er mwyn helpu i amddiffyn pobl ac eiddo.

Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i ddarparu'n uniongyrchol, neu gyda phartneriaid, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer cynefinoedd a chynefinoedd rhynglanwol, er mwyn lliniaru neu wneud iawn am effeithiau sy'n cael eu creu gan amddiffynfeydd presennol ac yn y dyfodol. Caiff hyn ei gyflawni trwy ein Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol, sy'n ofyniad statudol dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Rhodddwyd sylw i ystyriaethau amgylcheddol trwy gydol datblygiad y cynllun trwy'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae adlinio rhaglenni cynllunio rheoli basnau afon a rhaglenni cynllunio rheoli perygl llifogydd a meysydd astudio wedi caniatáu i ni ystyried sut mae'r cynlluniau'n rhyngweithio a sut gall Cyfoeth Naturiol Cymru weithio i gyflenwi buddiannau lluosog yn y modd mwyaf effeithlon, trwy gydol y cylch cynllunio chwe blynedd.

Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy (ail gylch) wedi cael ei ddatblygu i'r un amserlenni â'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn disgrifio'r pwysau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr; yn nodi amcanion ar gyfer afonydd, llynnoedd, aberoedd, dŵr arfordirol a dŵr daear ar gyfer y cyfnod 2015–2021; ac yn diffinio'r prif fesurau sydd eu hangen i wella'r amgylchedd, y buddiannau y gallai'r gweithredoedd hynny eu cyflawni, a phwy sydd yn y lle gorau i'w cyflenwi. Nod y mesurau yw mynd i'r afael â'r problemau sylweddol o reoli dŵr. Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd yn nodi bod Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basnau Afon yn agweddau ar reolaeth basn afon integredig, ac y *'dylai'r ddwy broses felly ddefnyddio'r potensial cilyddol ar gyfer synergeddau a buddiannau cyffredin, gan ystyried amcanion amgylcheddol Cyfarwyddeb 2000/60/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr), a sicrhau effeithlonrwydd a defnydd doeth o adnoddau.'*

Er mwyn helpu i integreiddio Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy, mae'r ddau gynllun yn nodi nifer o Fesurau Cenedlaethol. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod y ddau gynllun yn gysylltiedig ac yn sicrhau bod y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn ystyried y mesurau sydd eu hangen i wella'r amgylchedd dŵr wrth ymgymryd â gweithgareddau rheoli perygl llifogydd. Cynigir y bydd y Mesurau Cenedlaethol hyn yn cael eu cyflenwi, ble'n bosibl, gan brosiectau, gweithrediadau a chynlluniau rheoli perygl llifogydd. Nodir y mesurau isod, ac maent yn dangos ymrwymiad CNC i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig trwy ein gweithgareddau.

## Mesurau Cenedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd i'w Cynnwys yn y Cynllun Rheoli Basn Afon a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

1. **Nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr trwy raglenni gwaith a dyluniadau cynllun ar gyfer rheoli perygl llifogydd sydd eisoes yn bodoli.** Mae synergeddau a gwrthdaro posibl rhwng mesurau'r Cynllun Rheoli Basn Afon a mesurau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd mewn cymunedau penodol sydd mewn perygl wedi cael eu nodi, a byddant yn cael eu hymgorffori yn y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (y system ar gyfer blaenoriaethu gweithredoedd rheoli perygl llifogydd yng Nghymru) i ganfod lle y gall prosiectau gyflawni buddiannau lluosog. Y mesurau hyn yw'r rhain sydd wedi cael eu nodi yn y Cynllun Rheoli Basn Afon fel mesurau angenrheidiol i gyrrff dŵr allu cyflawni statws neu botensial ecolegol da. Rydym wedi dewis y rhai y gellir naill ai eu cyflawni trwy weithrediadau neu brosiectau rheoli perygl llifogydd neu a allant fod o fudd i reoli perygl llifogydd, er enghraifft:

- i. Rheoli prosesau arfordirol a gwaddodi yn briodol
- ii. Lliniaru effeithiau amddiffynfeydd llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol
- iii. Lliniaru effeithiau llywio a charthu
- iv. Rheolaeth tir ac arferion amaethyddol cynaliadwy
- v. Gwella llwybrau a chynefinoedd pysgod
- vi. Rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol
- vii. Rheoli mynediad a hamdden mewn modd cynaliadwy

Ar lefel prosiect, bydd yr arfarniad opsiynau a dylunio'n ystyried sut y gellir ymgorffori'r mesurau hyn neu sut gall rheoli perygl llifogydd weithio gyda phobl eraill, neu ddylanwadu arnynt, i gyflawni buddiannau lluosog.

2. **Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ceisio cyfleoedd ac yn dylanwadu ar bobl eraill er mwyn defnyddio mesurau rheoli perygl llifogydd lle bo hynny'n briodol.** Bydd y tîm Rheoli Perygl Llifogydd yn gweithio gyda'r timau Rheoli Adnoddau Naturiol Ardal i ddatblygu'r Datganiadau Seiliedig ar Ardal i sicrhau bod perygl llifogydd yn rhan annatod o ystyriaethau rheoli adnoddau naturiol, gan gynnwys canfod cyfleoedd er mwyn rheoli perygl llifogydd yn naturiol. Bydd y tîm Rheoli Perygl Llifogydd yn cefnogi gwaith eraill i ganfod cyfleoedd a rhoi mesurau ar waith i sicrhau buddiannau perygl llifogydd fel rhan o raglenni gwaith/prosiectau wedi eu cynllunio.

- 3. Gweithredu gwaith adlinio a reolir, a chreu cynefinoedd rhynglanwol, trwy'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol.** Byddwn yn parhau gyda'r rhaglen waith hon, gan greu cynefinoedd adferol arfordirol i unioni colledion rhagweledig oherwydd gwasgu arfordirol, fel sy'n cael ei nodi yng Nghynllun Rheoli Traethlin 2.
- 4. Mewn cyrff dŵr y nodir eu bod wedi cael eu haddasu'n sylweddol oherwydd gwaith amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, bydd gwaith lliniaru ar gyfer asedau a gweithgareddau sy'n eiddo i CNC yn cael ei adolygu a'i gyflawni ar sail blaenoriaeth.**
- 5. Cyfrannu at amcan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a statws cadwraeth ffatriol ar safleoedd Rheoli Lefel Dŵr sydd wedi cael eu blaenoriaethu.** Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr a thirfeddianwyr ar safleoedd a warchodir i gyflenwi Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr.
- 6. Cyfrannu at ymchwil a gwaith datblygu er mwyn nodi'r arferion gorau ar gyfer rheoli pwysau hydromorffolegol yn yr amgylchedd dŵr.**

Mae hefyd yn bwysig cydnabod sut gall rheoli perygl llifogydd elwa ar fesurau'r Cynllun Rheoli Basn Afon a chydweithio i fanteisio i'r eithaf ar hyn. Er enghraifft, bydd mesurau Cynllun Rheoli Basn Afon i leihau llwybrau llygredd gwasgaredig (h.y. rheoli mynediad i'r amgylchedd dŵr) trwy reoli dŵr ffo a draeniad o fudd amlwg i reoli perygl llifogydd. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys gwella cyflwr cynefinoedd parth y glannau a/neu gynefinoedd gwlypdiroedd trwy waith gwella cynefinoedd a gwaith ffensys, neu ddatblygu a gweithredu strategaethau rheoli gwaddod neu waith i atal llygredd amaethyddol.

### **3. Sut mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei ystyried**

Mae'n bwysig bod unrhyw gynllun yn ystyried yr amgylchiadau amgylcheddol y caiff ei roi ar waith ynddynt. Mae hyn er mwyn sicrhau osgoi effeithiau negyddol anfwriadol, yn ogystal â chanfod y posibilrwydd o gyflawni buddiannau lluosog.

Roedd yr Adroddiad Amgylcheddol a oedd ar gael i'r cyhoedd ochr yn ochr â'r cynllun drafft yn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl mesurau arfaethedig y cynllun ac yn nodi'r mesurau lliniaru a chyfleoedd i gyflawni buddiannau lluosog trwy weithrediadau rheoli perygl llifogydd.

Mae crynodeb o effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun ar yr amgylchedd ehangach a'r gwaith lliniaru a gynigir yn yr Adroddiad Amgylcheddol yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1**

<b>Gwasanaeth ecosystem</b>	<b>Effaith y cynllun</b>	<b>Disgrifiad o'r effaith</b>	<b>Lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol</b>
<b>Gwasanaethau darparu</b>			
Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, pysgod)	<b>Mân effaith negyddol</b>	Effeithiau lleol yn codi o'r posibilrwydd o gymryd tir amaethyddol o ganlyniad i waith adeiladu a/neu adlinio amddiffynfeydd. Rhaid ystyried hyn mewn perthynas â buddiannau posibl lle mae mesurau rheoli perygl llifogydd yn amddiffyn tir amaethyddol. Gall mesurau amddiffyn achosi effeithiau negyddol posibl ar gynefinoedd pysgodfeydd.	Bydd angen i bob cynllun rheoli perygl llifogydd gydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd i ganiatáu llwybrau teithio i bysgod a llyswennod. Bydd cyfleoedd am gynlluniau i wella cynefinoedd a llwybrau pysgod yn cael eu ceisio, yn unol ag argymhellion y Cynllun Rheoli Basn Afon. Caiff y gwaith lliniaru hwn ei gyflawni ar lefel prosiect.
<b>Gwasanaethau rheoleiddio</b>			
Rheoleiddio dŵr (e.e. llifogydd)	<b>Mân effaith gadarnhaol</b>	Byddai effeithiau cadarnhaol arwyddocaol yn lleol ledled ardal y basn afon o ganlyniad i'r lleihad mewn perygl llifogydd i bobl ac eiddo. Bydd hyn o ganlyniad i weithredu yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl.	



Gwasanaeth ecosystem	Effaith y cynllun	Disgrifiad o'r effaith	Lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol
<b>Gwasanaethau diwylliannol</b>			
Treftadaeth ddiwylliannol	<b>Mân effaith negyddol</b>	O'r posibilrwydd bod y mesurau'n tarfu ar archeoleg gladdedig ac anhysbys a'r effaith ar nodweddion hysbys treftadaeth ddiwylliannol a thirluniau. Mae hwn yn asesiad rhagofalus o ystyried y radd uchel o ansicrwydd o ran dyluniad mesurau, a dylid hefyd ei ystyried mewn perthynas â'r amddiffyniad a roddir i asedau treftadaeth ddiwylliannol gan fesurau parhaus, cytûn ac arfaethedig.	Trwy asesiadau o'r effaith amgylcheddol, bydd cynlluniau unigol yn canfod unrhyw asedau treftadaeth dynodedig neu nad ydynt yn ddynodedig ar y cam cynharaf, gan gynnwys y perygl o archeoleg gladdedig anhysbys. Bydd hyn yn creu posibilrwydd o effeithiau niweidiol yn ogystal â chyfleoedd am welliant, llywio opsiynau a dyluniad manwl cynlluniau, a chanfod strategaeth lliniaru briodol.
Hamdden a thwristiaeth (gan gynnwys mannau hygyrch glas a gwyrdd)	<b>Mân effaith negyddol</b>	Mae posibilrwydd o effeithiau lleol ar hamdden a thwristiaeth wrth gyflawni cynlluniau lliniaru llifogydd oherwydd y posibilrwydd o golli tir hamdden neu amwynder, tarfu ar hawliau tramwy cyhoeddus, a newidiadau mewn lefelau dŵr a allai effeithio ar weithgareddau seiliedig mewn dŵr.	Trwy asesiadau o'r effaith amgylcheddol, byddwn yn cynnwys grwpiau perthnasol sydd â diddordeb yn gynnwys ar lefel prosiect er mwyn canfod effeithiau posibl a chytuno ar fesurau lliniaru penodol i'r cynllun. Byddwn yn ceisio cyfleoedd am gynlluniau i wella mynediad cyhoeddus, dehongliad, rhwydweithiau llwybrau troed a beicio, a thir hamdden ac amwynder.
Gwerth esthetig (e.e. tirwedd, morwedd, tawelwch)	<b>Mân effaith negyddol</b>	Mae posibilrwydd o effeithiau lleol yn amodol ar leoliad, math a dyluniad cynlluniau rheoli perygl llifogydd.	Trwy asesiadau o'r effaith amgylcheddol, byddwn yn ymgymryd ag ymgynghoriad cynnar gyda buddiannau tirwedd perthnasol, a, ble'n angenrheidiol, byddwn yn ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar y dirwedd ac

Gwasanaeth ecosystem	Effaith y cynllun	Disgrifiad o'r effaith	Lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol
			asesiadau o effaith weledol i lywio dyluniad a mesurau lliniaru'r cynllun.
Gwasanaethau cefnogi			
Darparu cynefinoedd	<b>Mân effaith negyddol</b>	Mae mesurau parhaus a chytûn sy'n cael eu cyflawni dan ddrafft ail genhedlaeth y Cynllun Rheoli Traethlin yn cael cefnogaeth gan brosiectau cyflenwi cynefinoedd adferol dan y Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol. Mae gan y mesurau arfaethedig y potensial i achosi effeithiau lleol yn amodol ar leoliad, math a dyluniad y cynlluniau rheoli perygl llifogydd.	Bydd y dull lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau yn cynnwys ymgynghoriad cynnar â buddiannau cadwraeth natur i ganfod ac asesu ar lefel y prosiect unrhyw effeithiau posibl (gan gynnwys safleoedd dynodedig o ddiddordeb cadwraeth natur a rhywogaethau a warchodir) a chytuno ar fesurau lliniaru penodol ar gyfer y cynllun. Bydd ymgysylltu â buddiannau cadwraeth natur yn gynnar yn galluogi canfod cyfleoedd i greu cynefinoedd, gwella amrywiaeth cynefinoedd a chyflwr a chysylltedd safleoedd, a gwella llwybrau pysgod a llyswennod a chynefinoedd eraill ar gyfer rhywogaethau a warchodir.

Roedd y broses o ymgymryd â'r Aseiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y Cynllun Rheoli Basn Afon a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd wedi ei hadlinio, a oedd yn hyrwyddo cynllunio integredig ac yn golygu bod yr Aseiad Amgylcheddol Strategol yn gallu dylanwadu ar y cynllun.

Gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgymryd ag aseiad amgylcheddol o'n gweithrediadau a'n cynlluniau ar y raddfa briodol, a'n bod wedi gweithredu'r mesurau

enedlaethol a ddisgrifir uchod, mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd wedi rhoi sylw dyledus i ystyriaethau amgylcheddol. Bydd effeithiau negyddol yn cael eu cadw i isafswm, a bydd y gwaith o gyflawni buddiannau lluosog yn cael ei hyrwyddo.

#### **4. Sut mae safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol wedi cael eu hystyried**

Ymgwymerwyd ag ymgynghoriad ffurfiol ar y cam cwmpasu gyda chyhoeddi'r adroddiad cwmpasu er mwyn llywio cwmpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â Thîm Asesu Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Natural England ac English Heritage fel ymgynghoreion statudol yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, trwy gydol datblygiad y cynllun.

Ceir crynodeb manwl o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol yn Atodiad 1. Mae hwn yn nodi pob ymateb a dderbyniwyd, yn crynhoi'r sylwadau a wnaed, ac yn nodi'r camau gweithredu rydym wedi eu cymryd ac wrthi'n cymryd i fynd i'r afael â'r sylwadau. Ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cwestiynau penodol a ofynnwyd gennym yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, a'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd, isod.

Roedd ymatebwyr yn pryderu am nad oedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun drafft i lywio'r Adroddiad Amgylcheddol a datblygiad y cynllun. Rydym yn cytuno y dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fod wedi digwydd ochr yn ochr â pharatoi'r cynllun drafft. Fodd bynnag, oherwydd adnoddau cyfyngedig a phwysau ar y rhaglen, nid oedd hyn yn bosibl. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â'r cynllun terfynol, ac fe'i defnyddiwyd i lywio'r cynllun. Gwnaethom ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Asesu Strategol) ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft ac ystyried ei sylwadau wrth derfynu'r asesiad hwn. Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cytûn ar gael i lywio cymeradwyo'r cynllun, a chaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun terfynol.

Roedd pryderon bod y cynigion ar gyfer monitro effeithiau arwyddocaol y cynllun yn canolbwyntio gormod ar fonitro'r Cynllun Rheoli Basn Afon, na fyddai'n cynnwys yr

effeithiau ehangach ar dderbynyddion amgylcheddol. Mewn ymateb i'r sylw hwn, rydym wedi ystyried yn fanylach y gwaith rydym yn bwriadu ymgymryd ag ef i fonitro effeithiau arwyddocaol y cynllun, a chaiff hwn ei nodi yn Adran 6 isod.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder o ran osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau ar dderbynyddion penodol, ac roedd ymatebwyr eraill yn hyderus y byddai mesurau lliniaru'n cael eu canfod ar lefel y prosiect trwy asesiadau o'r effaith amgylcheddol. Rydym wedi nodi ein hymrwymiad i ymgymryd ag asesiadau amgylcheddol o'n prosiectau ym mholisi Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn Adran 3 uchod.

Derbyniwyd sylwadau ynghylch rheoli perygl llifogydd yn naturiol, arafu llifogydd, a storio dŵr llifogydd. Dim ond y mesurau a gynigir yn y cynllun ei hun gall yr Asesiad Amgylcheddol Strategol eu hasesu. Rydym yn ystyried yr holl opsiynau hyn ar lefel prosiect, a nod y gwaith o ymgorffori asesiadau o'r effaith amgylcheddol yn yr achosion busnes technegol ac economaidd ar gyfer prosiectau yw dylanwadu ar y dewis o opsiynau. Byddwn yn cynnal asesiadau o'r effaith amgylcheddol ar lefel prosiect yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried rheoli adnoddau naturiol wrth weithredu, rydym wedi nodi Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd Cenedlaethol yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd terfynol, gan gynnwys ceisio cyfleoedd a dylanwadu ar eraill i ddefnyddio mesurau naturiol i reoli perygl llifogydd ble'n briodol.

## **5. Y rhesymau dros ddewis Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau rhesymol eraill yr ymdrinwyd â nhw**

Roedd ymgynghoriad 2012 ar y dull arfaethedig o weithredu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ledled Lloegr a Chymru'n nodi tri dewis ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd:

- Dewis A. Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i baratoi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i ardaloedd mewn perygl, gan gynnwys ffynonellau lleol o berygl llifogydd. Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr.

- Dewis B. Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd cyfunol mewn partneriaeth ag eraill trwy ddwyn gwybodaeth o gynlluniau ar wahân at ei gilydd.
- Dewis C. Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd i gael ei ddatblygu mewn partneriaeth trwy un broses integredig sy'n cynnwys pob ffynhonnell o berygl llifogydd.

Cyhoeddodd CNC y ffordd ymlaen arfaethedig ym mis Mehefin 2013, gan roi ystyriaeth i adborth o'r ymgynghoriad. Yr agwedd a ffafwyd ganddynt ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd oedd Dewis B, sef Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd cyfunol. Hon oedd yr agwedd a'r bwriad gorau gennym ni. Fodd bynnag, unwaith y gwnaeth yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ystyried yr amserlenni oedd ynghlwm â'r gwaith, gwnaethant sylweddoli na fyddent yn gallu cwrdd â'r amserlenni i gyfuno â CNC. O ganlyniad, dewisodd pob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ag ardaloedd perygl llifogydd gynhyrchu cynlluniau annibynnol (Dewis A). Rydym yn ffafrio Dewis C ar gyfer cylchoedd yn y dyfodol.

### **Mesurau o gynlluniau presennol**

Mae cyfran fawr o'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd presennol yn cael ei dwyn yn uniongyrchol o gynlluniau sy'n rhan o ymgynghoriadau ac asesiadau amgylcheddol strategol blaenorol (Cynllun Dalgych ar gyfer Rheoli Llifogydd, Cynllun Rheoli Traethlin, Strategaeth Llanw Afon Dyfrdwy). Roedd y cynlluniau hyn yn ystyried dewisiadau eraill ar y pryd ac ar eu graddfa briodol, ac felly nid ydynt wedi cael eu hadolygu eto o fewn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd nac yn yr Aseiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y cynllun hwn.

### **Mesurau yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd**

Mae'r mesurau yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn nodi anghenion rheoli yn y dyfodol ledled y dalgych a thraethlin, ynghyd â ffynonellau lleol o berygl llifogydd. Ar y raddfa hon, maent yn tueddu i nodi gweithrediadau rhagarweiniol ar gyfer ymchwilio a datblygu arfarniadau a dewisiadau achosion busnes yn y dyfodol. Bydd prosesau cynllunio ac asesiadau amgylcheddol ategol pellach yn canolbwyntio ar ddewisiadau eraill ar lefel prosiect.

## 6. Y mesurau y dylid eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol arwyddocaol gweithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r adran hon yn nodi'r gwaith monitro rydym yn ei gynnig er mwyn deall effeithiau arwyddocaol y cynllun yn ymarferol. Mae'r broses fonitro'n canolbwyntio ar y gwasanaethau hynny lle mae effeithiau arwyddocaol posibl (gweler Tabl 3.1). Rhaid i'r dangosyddion fod yn ymarferol, cost effeithiol a strategol, a rhaid iddynt nodi effeithiau'r cynllun ei hun, yn hytrach na thueddiadau ehangach. Bydd effeithiau prosiectau unigol sylweddol yn cael eu monitro yn unol â chynlluniau gweithredu amgylcheddol a/neu gynlluniau monitro sy'n cael eu creu yn ystod asesiad effaith amgylcheddol y prosiect.

**Tabl 6.1 Ffynonellau gwybodaeth arfaethedig ar gyfer monitro effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd**

Gwasanaeth Ecosystem	Effaith y Cynllun	Dangosydd Monitro Arfaethedig	Ffynhonnell
<b>Gwasanaethau Darparu</b>			
Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, pysgod)	<b>Mân effaith negyddol</b>	Cyfanswm a chynhyrchiant tir amaethyddol.	Ar lefel prosiect, byddai colli tir neu newid y defnydd o dir yn cael ei gofnodi a'i liniaru neu ei unioni yn ôl y gofyn. Mae LIC <sup>1</sup> yn cofnodi ffigyrau blynyddol ar nifer yr anifeiliaid ac ardaloedd a'r math o dir amaethyddol ledled Cymru. Gellid defnyddio'r data hyn i ddangos tueddiadau strategol.
		Dosbarthiad pysgodfeydd o gyrrff dŵr.	Statws ecolegol cyrrff dŵr – hysbyswyd trwy'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afon.
<b>Gwasanaethau Rheoleiddio</b>			
Rheoleiddio dŵr (e.e. llifogydd)	<b>Mân effaith gadarnhaol</b>	Nifer y bobl ac eiddo mewn perygl gan lifogydd.	Setiau data monitro a modelu Cyfoeth Naturiol Cymru.
<b>Gwasanaethau Diwylliannol</b>			
Treftadaeth ddiwylliannol	<b>Mân effaith negyddol</b>	Statws nodweddion hanesyddol a restrwyd a nodweddion	Bydd asesiadau o'r effaith amgylcheddol ar lefel prosiect yn nodi effeithiau posibl ar nodweddion

<sup>1</sup>Ffeithiau a Ffigyrau Ffermio Cymru 2015, Llywodraeth Cymru.

		hanesyddol nad ydynt yn rhestredig.	hanesyddol a restrwyd a nodweddion hanesyddol nad ydynt yn rhestredig ac yn dylanwadu ar ddyluniad i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau.  Mae Cadw'n ymgymryd â rhaglen monitro a rheoli ar gyfer nodweddion sy'n eiddo i'r wladwriaeth.
		Monitro nodweddion archeolegol anhysbys claddedig neu ardaloedd o botensial archeolegol ar lefel prosiect unigol.	Cadw cysylltiad agos ag Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru yn ystod y gwaith o arfarnu a chynllunio prosiectau. Darparu copiâu o adroddiadau (e.e. Astudiaethau Gwaith Desg, Adroddiadau Ymchwiliol, Adroddiadau Briff Gwylio ac ati) i Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru yn dilyn cyflenwi prosiect.
Hamdden a thwristiaeth (gan gynnwys manau glas a gwyrdd hygyrch)	<b>Mân effaith negyddol</b>	Gallai colli ardal hamdden neu amwynder, tarfu ar hawliau tramwy cyhoeddus, a newidiadau mewn lefelau dŵr effeithio ar weithgareddau seiliedig yn y dŵr.	Niferoedd defnyddwyr llwybr yr arfordir ac ymwelwyr â Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (cyfrifwyr ymwelwyr mewn rhai lleoliadau). Niferoedd ymwelwyr â Pharciau Cenedlaethol. Bydd cyfleoedd am gynlluniau i wella mynediad cyhoeddus, dehongliad, rhwydweithiau llwybrau troed a beicio, a thir hamdden ac amwynder yn cael eu cofnodi yn y canlyniadau amgylcheddol.
Gwerth esthetig (e.e. tirwedd, morwedd, tawelwch)	<b>Mân effaith negyddol</b>	Mae posibilrwydd o effeithiau lleol yn amodol ar leoliad, math a chynllun cynlluniau rheoli perygl llifogydd.	Trwy asesiadau o'r effaith amgylcheddol, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cynnar gyda buddiannau tirwedd perthnasol a, ble bo angen, ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weladwy i lywio dyluniad y cynllun a mesurau lliniaru.
<b>Gwasanaethau Cefnogi</b>			

Darparu cynefin	<b>Mân effaith negyddol</b>	Prosiectau cyflenwi cynefinoedd adferol dan y Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol.	Cyflenwi cynefinoedd rhynglanwol mewn perthynas â monitro colli cynefin oherwydd y môr yn codi. Cynhelir trwy Raglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.
		Cyflenwi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.	Cyflenwi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth trwy brosiectau wedi eu cyllido trwy reoli perygl llifogydd. Dangosydd perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru.
		Statws cadwraeth ffafriol safleoedd Ewropeaidd.	Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro statws cadwraeth safleoedd Ewropeaidd. Dangosydd perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru.
		Mae'n bosib y gall mesurau arfaethedig gael effeithiau lleol yn amodol ar leoliad, math a dyluniad cynlluniau rheoli perygl llifogydd.	Bydd asesiadau o'r effaith amgylcheddol ar lefel prosiect yn monitro effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau ac yn gweithredu mesurau lliniaru, adfer a monitro, yn ôl y gofyn.

Bydd llawer o raglenni monitro sy'n bodoli eisoes yn cael eu hadolygu'n rheolaeth trwy adrodd statudol. Fodd bynnag, bydd y gwaith monitro a argymhellir i ddangos effeithiau rhoi'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar waith yn cael ei adolygu yn y gwaith cwmpasu sylfaenol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol ail gylch y cynlluniau, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2021.





## Atodiad 1: Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau gweithredu a gymerwyd

Sefydliad sy'n ymateb	Ymateb i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol	Camau gweithredu a gymerwyd
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Pryder efallai na fydd canolbwyntio gwaith monitro trwy'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn ddigonol i ganfod effeithiau na ellir eu rhagweld ar dderbynyddion eraill, e.e. safleoedd a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop, tirwedd a morwedd, treftadaeth ddiwylliannol ac ati.	Rydym wedi ychwanegu manylion pellach at y gwaith arfaethedig o fonitro effeithiau arwyddocaol. Nodir y rhain yn Adran 6 o'r ddogfen hon.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Dylid ystyried y posibilrwydd bod mesurau'n cael effaith ar bysgod a'u cynefin yn effaith niweidiol. Nid yw mesurau lliniaru arfaethedig yn rhoi digon o sicrwydd na fydd effaith arwyddocaol. Nes bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi ei gwblhau, nid yw'n bosibl i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ddod i gasgliadau cadarn ar arwyddocâd yr effeithiau.	Gwnaeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried effeithiau posibl ar bysgod a chynefinoedd. Gweler y sylwadau isod ynghylch yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd asesiad o'r effaith amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect yn ystyried a lliniaru effeithiau manwl. Mae'r casgliad o fân effaith negyddol arwyddocaol ar gwmpas strategol y cynllun yn dal i sefyll.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Dylid defnyddio modd ailadroddol wrth gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a datblygu'r cynllun. Amhriodol derbyn neu derfynu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd nes bydd yr holl brosesau asesu perthnasol wedi'u cwblhau.	Rydym yn cytuno y dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddigwydd ochr yn ochr â'r gwaith o baratoi'r cynllun. Nid oedd hyn yn bosibl oherwydd adnoddau cyfyngedig a phwysau ar y rhaglen. Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â'r gwaith o flaenoriaethu mesurau a chyrrff dŵr i sicrhau ei fod wedi dylanwadu ar y broses hon. Cynhyrchwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn ymgynghoriad â Chyfoeth

		Naturiol Cymru (Tîm Asesu Strategol) a Natural England, ac roedd ar waith cyn i'r cynllun gael ei dderbyn a'i gymeradwyo.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Efallai nad yw dibyniaeth CNC ar gasgliadau prosesau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi dyddio a/neu o ansawdd isel yn briodol. Gofynnwyd am eglurder o ran sut mae effeithiau ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill yn cael eu hystyried wrth ddibynnu ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli.	Cafodd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a mesurau cytûn eu cymeradwyo ar adeg cymeradwyo'r cynllun a'r prosiect. Nid ydym yn bwriadu ailedrych ar y rhain, ond rydym wedi ystyried yr asesiadau hyn wrth ystyried eu heffeithiau ar y cyd â mesurau arfaethedig. Mae hyn yn cael ei nodi yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Dylid ystyried effeithiau ar gynefinoedd pysgodfeydd dan y pwnc Darparu Cynefin.	Mae hyn wedi cael ei gyflwyno i'w ystyried yn y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd. Nid yw'n newid canlyniad yr asesiad.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Nid oes tystiolaeth bod effeithiau erydu a gwaddodi ar ddyfroedd pysgod cragen wedi cael eu hystyried.	Ystyriwyd y rhain dan ansawdd dŵr a rheoliadau pridd ac erydu, a chawsant eu nodi yn Nhablau Crynodeb yr Arfarniad. Ni chafodd y rhain eu cyhoeddi, ond gellir eu darparu ar gais.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Nid yw'n edrych fel petai wedi ystyried Dŵr Nofio dan y pwnc hamdden. Gallai erydiad, gwaddodi a charthu effeithio ar ansawdd dŵr. Dylid ystyried amseru'r gwaith i osgoi'r tymor dŵr nofio.	Ystyriwyd hyn dan ansawdd dŵr, a chaiff ei nodi yn Nhablau Crynodeb yr Arfarniad. Ni chafodd y rhain eu cyhoeddi, ond gellir eu darparu ar gais.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Pryder o ran defnyddio pynciau gwasanaethau ecosystemau yn hytrach na phynciau a bennir gan y Gyfarwydddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. (Ceisiodd y Tîm Asesu Strategol eglurhad pellach ar y pwynt hwn (Telecon 5 Mawrth). Nododd y Tîm Asesu Strategol nad yr egwyddor o ddefnyddio pynciau gwasanaethau ecosystemau oedd y pryder, ond bod wrth i fethodoleg Asesiad Amgylcheddol Strategol Gwasanaethau Ecosystemau ddatblygu, rhaid i ni sicrhau nad yw'n symud oddi wrth dderbynyddion a phynciau Asesiad Amgylcheddol Strategol.)	Ystyried yn Gwersi a Ddysgwyd.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Rhaid i fethodoleg yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ddangos yn glir y rhyngberthynas rhwng gwasanaethau ecosystemau, gan fod hyn yn aneglur.	Ystyried yn Gwersi a Ddysgwyd.

Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Cyd-destun amgylcheddol: Dylid cyfeirio at statws Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr Afon Dyfrdwy a'r ffaith bod rhaid i gyrff dŵr gyflawni Potensial Ecolegol Da.	Cofnodwyd hyn yn y llinell sylfaen y cafodd yr asesiad ei gynnal mewn perthynas ag ef.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Cyd-destun amgylcheddol: Dylid cyfeirio at Safle Ramsar Afon Dyfrdwy.	Nodwyd.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Esbonio'r hyn a ystyrir yn fesur cynllunio defnyddio tir ac ystyried ei effeithiau cynyddol gyda mesurau cynlluniau rheoli perygl llifogydd eraill a gyda chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.	Mae hwn yn "Fesur Atal", a chaiff ei ddiffinio yn Nhabl 9 Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy. Mae hyn yn golygu bod rheoli perygl llifogydd yn dylanwadu ar ac yn hysbysu cynllunio defnydd tir a ymgwymerir gan sefydliadau eraill i sicrhau bod perygl llifogydd yn cael ei ystyried. Ni chafodd hwn ei gynnwys yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol gan nad yw'n arwain at effeithiau materol gan y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd hwn. Byddai'r cynlluniau defnyddio tir eu hunain yn amodol ar Asesiad Amgylcheddol Strategol.
Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol	Treftadaeth ddiwylliannol: Gofynnir am fwy o eglurder ar osgoi, lleihau a lliniaru mewn perthynas â nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, archeoleg a phaleo-archeoleg.	Gweler Tabl 3.1 uchod, sy'n nodi'r ymrwymiad lliniaru.
Natural England (NE) Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Gobeithir y bydd y cynlluniau rheoli perygl llifogydd terfynol yn annog datrysiadau integredig gyda sawl amcan, ble'n briodol, er budd pobl busnes a'r amgylchedd mewn ffordd eglur a chadarnhaol.	Mae CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ymgymryd â chynllunio integredig rhwng y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynllun Rheoli Basn Afon i sicrhau y gellir cyflenwi buddiannau lluosog trwy ein gweithrediadau. Cyfeirier hefyd at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Mae NE yn cefnogi a chroesawu ymrwymiad y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd i ymchwilio cyfleoedd i reoli perygl llifogydd yn naturiol. Hoffai NE ymchwilio cyfleoedd pellach i reoli perygl llifogydd yn naturiol lle y gall gyd-fynd ag adfer cynefinoedd â blaenoriaeth neu ecosystemau diraddiedig.	Nodwyd yr adborth.  Cyfeirier at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Pryder am lefel uchel cynlluniau rheoli perygl llifogydd, sy'n golygu diffyg manylder a dealltwriaeth o'r dull strategol o weithio tuag at reoli perygl llifogydd. Os caiff cynlluniau	Nid yw Cynllun Dalgylch Afon Dyfrdwy ar gyfer Rheoli Llifogydd yn cael ei dynnu yn ôl; bydd yn parhau i lywio polisi strategol.

	dalgylch ar gyfer rheoli llifogydd eu tynnu yn ôl, bydd llawer o wybodaeth bwysig a manwl yn cael ei cholli.	Cyfeirier hefyd at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Ymddengys bod anghysondeb rhwng y Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf (2015–2021) a mesurau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.	Cyfeirier at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Bydd rhaglen gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd 2015–2021 yn cyflenwi ardaloedd sylweddol o gynefin blaenoriaeth ac yn cyfrannu at darged bioamrywiaeth 2020. Fodd bynnag, nid oes cynllun eglur yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer creu neu adfer cynefin.	Cyfeirier at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, a dylai asesu effeithiau posibl mesurau ar safleoedd Ewropeaidd unigol cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl yn hytrach na dibynnu ar yr asesiad o fwndeli o fesurau ar raddfa dalgylch rheoli.	Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â blaenoriaethu mesurau a chyrrff dŵr i sicrhau ei fod yn dylanwadu ar y broses hon. Cynhyrchwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Asesu Strategol) a Natural England, ac roedd ar waith cyn i'r cynllun gael ei derfynu a'i gymeradwyo. Cyfeirier hefyd at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Dylid cynnal ymarfer i sicrhau bod asesiadau rheoliadau cynefinoedd blaenorol (y Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd a Chynllun Rheoli Traethlin 2) yn dal yn ddilys, gan ystyried newidiadau mewn amodau amgylcheddol neu ddatblygiad dilynol cynlluniau neu brosiectau eraill. Dylai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried effeithiau cyfunol ar gyfer mesurau parhaus, cytûn ac arfaethedig.	Cymeradwywyd asesiadau rheoliadau cynefinoedd ar gyfer mesurau parhaus a chytûn ar adeg cymeradwyo'r cynllun a'r prosiect. Nid ydym yn bwriadu ailymweld â'r rhain, ond rydym wedi ystyried yr asesiadau hyn wrth ystyried eu heffeithiau ar y cyd â'r mesurau arfaethedig. Mae hyn yn cael ei nodi yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Cyfeirier hefyd at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Bydd angen i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried effeithiau cyfunol ar gyfer mesurau parhaus, cytûn ac arfaethedig.	Rydym wedi ystyried yr asesiadau hyn ar gyfer cynlluniau rheoli traethlin 2 a chynlluniau dalgylch ar gyfer rheoli llifogydd a chynlluniau perthnasol eraill wrth asesu'r effeithiau cyfunol yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Cyfeirier hefyd at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.

Natural England Sylwadau a wnaed mewn perthynas â rhan Lloegr o Afon Dyfrdwy'n unig.	Nid yw'n eglur a yw popeth a restrir yn Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd eisoes wedi bod yn destun cynllun strategol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwy Gynllun Rheoli Traethlin 2, Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd, neu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Rhan Lanwol Afon Dyfrdwy. Bydd angen i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd esbonio hyn a sicrhau bod Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael eu cynnal ar gyfer effeithiau unigol ac ar y cyd.	Cyfeirier at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
English Heritage (EH)	Dim digon o fanylder yn y cynlluniau rheoli perygl llifogydd i EH wneud sylwadau a dadansoddiad deallus o effeithiau cynigion. Mae'n mynnu deialog barhaus. Gweler yr ymateb llawn am fanylion.	Dim ond ar gyfer cynlluniau dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd y cyflwynwyd ymateb manwl. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Dyfrdwy. Cyfeirier at ddogfen ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd.
Cadw	Gwrthododd ymateb.	
CLILC	Rydym ar ddeall y bydd mesurau amddiffyn (yn arbennig cynlluniau cyfalaf) wedi bod yn destun asesiad llawn o'r effaith amgylcheddol. Rydym yn hyderus felly y bydd unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol sydd eu hangen yn cael eu hystyried ar y cam hwn.	Bydd mesurau amddiffyn yn amodol ar asesiad o'r effaith amgylcheddol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a pholisi Cyfoeth Naturiol Cymru.
Partneriaeth Afon Dyfrdwy Lanwol	Dylid ymchwilio cyfleoedd cilio a reolir ("gwneud lle") fel ffordd amgen yn lle cynnal amddiffynfeydd caled ac fel ffordd o wella'r amgylchedd naturiol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid ceisio creu cynefinoedd er mwyn unioni effeithiau mesurau rheoli perygl llifogydd.	Cytuno. Dyma beth sy'n digwydd ar hyn o bryd trwy arfarniad dewisiadau ar lefel prosiect. Os nad yw'n bosibl, gellir defnyddio ein Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol fel ffordd o adfer cynefinoedd.
Coed Cadw	Cesglir y bydd mesurau rheoli perygl llifogydd yn cael 'mân effaith negyddol' ar wasanaethau darparu (amaethyddiaeth/pysgodfeydd), hamdden a thwristiaeth, tirwedd, a darparu cynefinoedd. Nid yw buddiannau ehangach gweithio gyda phrosesau naturiol ar raddfa dalgylch mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd wedi cael eu hystyried. Mae plannu coed sydd wedi ei	Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn seiliedig ar effeithiau mesurau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd arfaethedig sy'n benodol iawn i'r lleoliad ac wedi eu hanelu at leihau'r perygl o ddigwyddiadau eithafol yn yr ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl. Mae rôl coedwigo a thechnegau rheoli tir yn bwysig ar raddfa strategol i ddarparu buddiannau rheoli perygl llifogydd ar raddfa fechan a buddiannau

	<p>dargeddu fel rhan o ddull o'r fath yn cefnogi amaethyddiaeth a physgodfeydd cynaliadwy ac yn gwella bioamrywiaeth a thirwedd, ac mae coetir hygyrch i'r cyhoedd yn cyfrannu at dwristiaeth leol ac yn hybu iechyd a lles. Mewn perthynas â'r effaith negyddol ganfyddedig ar amaethyddiaeth, mae Coed Cadw'n casglu tystiolaeth sy'n awgrymu bod plannu coed, perthi a chlustogfeydd ar ffermydd yn gallu cael effaith sylweddol ar gynhyrchiant fferm, boed yn gnydau neu anifeiliaid. Byddem yn hapus i rannu'r gwaith hwn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill.</p>	<p>amgylcheddol ehangach. Yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol, rydym wedi datblygu Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd Cenedlaethol. Un o'r rhain yw datblygu cyfleoedd i reoli perygl llifogydd yn naturiol. Cyfeiriwch at y ddogfen Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd derfynol am fanylion pellach.</p>
Pŵer Morlyn Llanw	<p>Mae'r dadansoddiad o wasanaethau ecosystemau yn ddefnyddiol. Rwy'n ansicr ynglŷn â chwmpas yr asesiad, e.e. a oedd polisiau a mentrau ehangach y llywodraeth yn cael eu hystyried, e.e. cynllunio morol, polisi ynni ac ati. Fe allai cwmpas ehangach fod wedi canfod mwy o gyfleoedd a heriau ar gyfer cynllunio rheoli perygl llifogydd i fynd i'r afael â nhw (e.e. trwy fesurau arfaethedig).</p>	<p>Roedd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystyried polisiau a chynlluniau cyhoeddedig ar raddfa genedlaethol, sy'n gyfwerth â graddfa'r cynllun ei hun.</p>
Pŵer Morlyn Llanw	<p>Noder sylwadau uchod ynghylch cynllunio morol, polisi ynni ac ati ac a oes cyfleoedd neu heriau eraill y gellid bod wedi eu canfod trwy'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol. Gan hynny, rwy'n amheus o'r rhestr cynlluniau, rhaglenni a pholisiau a fyddai wedi llywio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.</p>	<p>Roedd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystyried polisiau a chynlluniau cyhoeddedig ar raddfa genedlaethol, sy'n gyfwerth â graddfa'r cynllun ei hun.</p>